# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

**RHAN 4**

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

**PENNOD 2**

GWELLA LLESIANT LLEOL

*Cynlluniau llesiant lleol*

VALID FROM 01/04/2016

**39 Cynlluniau llesiant lleol**

(1) Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun ("cynllun llesiant lleol") sy'n nodi ei amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni.

(2) Caiff y cynllun gynnwys amcanion—

(a) sydd hefyd yn amcanion llesiant a gyhoeddwyd o dan Ran 2 gan aelod o'r bwrdd;

(b) sydd i'w cyflawni drwy gymryd camau—

(i) gan un neu ragor o aelodau o'r bwrdd, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill sy'n gweithredu'n unigol, neu

(ii) unrhyw gyfuniad o aelodau, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill sy'n gweithredu ar y cyd.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 39. (See end of Document for details)*

(3) Ond ni chaniateir i gynllun gynnwys amcan sydd i'w gyflawni drwy gamau sydd i'w cymryd gan gyfranogwr gwadd neu bartner arall (pa un ai yn unigol neu ar y cyd mewn unrhyw gyfuniad o aelodau, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill) ond os yw'r bwrdd wedi cael cydsyniad y cyfranogwr gwadd neu'r partner arall hwnnw, yn ôl y digwydd.

(4) Wrth osod ei amcanion llesiant rhaid i fwrdd ystyried adroddiad y Comisiynydd o dan adran 23.

(5) Rhaid i gynllun llesiant lleol gynnwys datganiad—
- (a) sy'n egluro pam y mae'r bwrdd yn ystyried y bydd cyflawni'r amcanion lleol yn cyfrannu o fewn yr ardal at gyrraedd y nodau llesiant;
- (b) sy'n egluro sut y mae'r amcanion ac unrhyw gamau arfaethedig wedi eu gosod mewn cysylltiad ag unrhyw faterion a grybwyllir yn yr asesiad diweddaraf o lesiant a gyhoeddwyd o dan adran 37;
- (c) sy'n pennu'r cyfnodau amser y mae'r bwrdd yn disgwyl cyflawni'r amcanion o fewn iddynt;
- (d) sy'n egluro sut y mae unrhyw gamau arfaethedig i'w cymryd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- (e) os yw'r cynllun yn cynnwys amcanion y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(b), sy'n pennu'r camau arfaethedig i'w cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion hynny ac, yn achos camau i'w cymryd gan gyfuniad o aelodau'r bwrdd, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill, y personau sydd yn y cyfuniad;
- (f) os nad y cynllun cyntaf i'r bwrdd ei gyhoeddi yw'r cynllun, sy'n pennu'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun blaenorol y bwrdd a phennu i ba raddau y mae'r amcanion hynny wedi eu cyflawni;
- (g) sy'n darparu unrhyw wybodaeth arall y mae'r bwrdd yn ei hystyried yn briodol.

(6) Rhaid i bob bwrdd gyhoeddi ei gynllun llesiant lleol heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn ar ôl y dyddiad y cynhelir yr etholiad arferol nesaf o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70) ar ôl cychwyn yr adran hon.

(7) Yn dilyn hynny, rhaid i bob bwrdd gyhoeddi cynllun llesiant lleol ymhen dim mwy na blwyddyn ar ôl y dyddiad y cynhelir bob etholiad arferol wedi hynny o dan yr adran honno.

(8) Rhaid i bob bwrdd anfon copi o'i gynllun at—
- (a) Gweinidogion Cymru;
- (b) y Comisiynydd;
- (c) Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- (d) pwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 39 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 39.